# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener, 28 Gorffennaf 2023 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, B Davies, G Horton, C Baker-Westhead, M Evans and L James |
| Yn bresennol: | Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Mark Bleazard (Digital Services Manager), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Silvia Gonzalez-Lopez (Waste Recycling Strategy Manager), Paul Jones (Strategic Director - Environment and Sustainability), Tracy McKim (Head of People, Policy and Transformation) and Ross Cudlipp (Service Manager - Climate Change) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr P Bright and S Cocks |

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr S Cocks a P Bright.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r cofnodion egluro siom cyfeiriwr yr eitem am y bid Codi'r Gwastad am y cais i'r Swyddogion fod yn bresennol.

- Cytunodd yr Ymgynghorydd Craffu i wneud hyn.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 29 Medi wedi ei symud i 9 Hydref 2023.

- Nododd yr Ymgynghorydd Craffu y byddai'r cyfarfod hwn yn dechrau'n gynt i roi amser i ymdrin â'r ddau adroddiad.
- Deallodd y Pwyllgor fod yn rhaid i'r cyfarfod ddechrau'n gynt, ond yr oeddent yn dymuno cychwyn awr yn hwyrach na'r 2pm a drefnwyd.
- Cytunodd yr Ymgynghorydd Craffu i newid yr amser cychwyn.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw faterion yn codi.
Nododd y Pwyllgor fod problem gyson gyda swyddi gwag yn y tîm Archwilio mewnol a gofynnodd i'r Cadeirydd a oedd modd lleisio eu pryderon fel y gwnaeth Pwyllgorau eraill.

- Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol drosolwg byr o'r problemau ac esbonio fod nifer o swyddogion wedi symud i swyddi eraill o'r tîm Archwilio a bod hyn wedi gadael swyddi gwag yn y Cyngor.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod y mater wedi ei godi yn y Pwyllgor Craffu Lle a Chorfforaethol wrth ystyried yr adroddiad diwedd blwyddyn, ac yn y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio fel rhan o'r cylch gorchwyl. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Pennaeth Cyllid wedi cytuno i ddychwelyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio gyda Chynllun Archwilio wedi'i gyfoesi am weddill 2023/24, sy'n debyg o gynnwys sicrhau adnoddau ychwanegol o gorff allanol.
- Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod hysbysebion allan ar hyn o bryd am y swyddi gwag, a bod y gwasanaeth yn edrych i mewn i ddulliau eraill o recriwtio, fel prentisiaethau. Mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau anffurfiol am gyfloed o ran gwasanaeth rhanbarthol, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach.
- Nododd y Cadeirydd y bu llawer o symud dros y blynyddoedd yn y tîm Archwilio a swyddi gwag am amser.
- Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol y bu swydd wag yn y tîm ond ei bod wedi ei symud o'r tîm fel rhan o weithgaredd i gydbwyso'r gyllideb. Esboniodd, er nad oes gallu ar hyn o bryd i ostwng lefelau staffio, y bydd angen cydbwyso'r gyllideb eto yn y flwyddyn i ddod.
- Holodd y Pwyllgor faint o bobl sydd wedi eu cyflogi yn y  tîm archwilio mewnol, a dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol mai un person fydd yn y tîm erbyn yr haf.
- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai cyflogi'r mudiad Archwilio allanol yn ddrutach na llenwi'r swyddi yn fewnol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod y Cyngor eisoes yn defnyddio'r cwmni am rai tasgau archwilio ac y gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid greu adroddiad manwl y gellir ei anfon wedyn at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw gefnogaeth y gallant ei roi o ran pecyn tâl i swyddogion, ac esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol fod y polisi a'r strwythur tâl yn cael ei osod gan y Cyngor, ac nad yw'n fater mor syml â rhoi mwy o arian i un rôl arbennig, gan fod yr holl rolau yn gyd-gysylltiedig.
- Nododd y Cadeirydd fod ffactorau'r farchnad wedi eu gosod yn y gorffennol i rôl, a chytunodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol, ond gan esbonio hefyd fod proses y mae'n rhaid ei dilyn cyn y pwynt hwnnw.

Cododd y Pwyllgor y cais blaenorol i'r Brifysgol ddod i'r Pwyllgor gan ddweud nad oedd hyn wedi digwydd, a'u bod yn dal i ddisgwyl am ateb.

- Esboniodd y Cadeirydd fod ymateb wedi ei anfon.
- Ystyriodd y Pwyllgor nad oedd yr ymateb wedi ymdrin yn llawn â'r holl gwestiynau oedd ganddynt.
- Nododd y Cadeirydd fod y Brifysgol wedi bod yn newid pwrpas adeiladau i wneud lle i fwy o fyfyrwyr.
- Esboniodd y Cadeirydd, petai'r Brifysgol yn derbyn gwahoddiad i drafod hyn gyda chynrychiolwyr y Cyngor, na fuasent yn debygol o ddod i'r Pwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu, gan nad yw cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys craffu ar y Brifysgol.
- Nododd y Pwyllgor mai cais yn unig oedd hwn, gan ei bod yn bwysig bod yn agored a thryloyw, a dywedodd ei bod yn hanfodol denu myfyrwyr i'r ddinas.
- Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol nad oes gan y Pwyllgor yr awdurdod i graffu ar y Brifysgol ond ychwanegodd y byddai'n gwneud yn siŵr fod gwahoddiad yn cael ei anfon atynt, ac y buasai ganddynt hwy yr hawl i wrthod y gwahoddiad.
- Holodd y Pwyllgor tybed a oedd y gair Craffu wedi eu dychryn, a nododd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol y byddai'r cais yn gwneud yn glir nad dod yno i fod yn destun 'craffu' y byddant.
- Holodd y Cadeirydd beth oedd y fforwm priodol i graffu ar y Brifysgol, a dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol nad gwaith y Pwyllgor oedd hyn, ond eu bod wedi codi cwestiynau dilys.

Nododd y Pwyllgor, yn yr argymhellion am hyfforddi, y cafwyd datganiad na allai'r Cyngor reoli hyfforddiant am ei fod yn cael ei hwyluso yn allanol. Dywedwyd, os nad oedd hyfforddiant yn gweithio fel y dylai, y gellid edrych i mewn i ddewisiadau eraill. Nododd y Pwyllgor hefyd, er nad oedd yn rhaid derbyn yr argymhellion ar gyfer gweithredu, y gall fod yn fuddiol deall y rhesymau dros hyn.

- Nododd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei godi eto, ac y gallai'r Cyngor roi rhesymeg dros ddefnyddio'r darparwyr allanol, er mwyn i hyn gael ei ddogfennu i'r Pwyllgor.
- Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu fod dogfen ddrafft i fonitro argymhellion wedi ei chreu ac y byddai'n cael ei dwyn i gyfarfod Craffu nesaf y Cadeirydd i'r TRhC i gael adborth cyn ei weithredu.

Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Craffu fod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wedi bod yn gweithio ar gael ymateb gan y Prif Weithredwr am gyfrifoldeb gweithredu argymhellion, a byddai'n gofyn am ymateb ar fater hyfforddiant.
Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **23 Mehefin 2023 eu derbyn fel rhai cywir.**

4 **Adroddiad Risg Gwybodaeth Blynyddol 22-23**

**Gwahoddwyd:**
**Y Cynghorydd Yvonne Forsey - Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth**
**Paul Jones - Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**Silvia Gonzales-Lopez - Pennaeth Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd.**
**Ross Cudlipp - Rheolwr Gwasanaeth Newid Hinsawdd.**
Cytunodd y Pwyllgor i glywed yr eitem hon yn gyntaf.
Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd.
Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth yr adroddiad a rhoddodd y Pennaeth Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd drosolwg ohono.
**Cwestiynau:**
Holodd y Pwyllgor am y ffigyrau am deithio ar fusnes a gweithwyr yn cymudo, gan ofyn pam fod hyn wedi cynyddu a beth fyddai heriau gostwng hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y bu cynnydd yn 22-23 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd y pandemig. Dywedodd y byddai'n well cymharu data â 2019 fel gwaelodlin. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth y Pwyllgor y byddant yn darganfod pam fod allyriadau yn uwch pan fo gweithio o gartref wedi cynyddu, a byddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth honno.

Nododd y Pwyllgor y newidiadau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn priodoli allyriadau carbon sefydliadau, gan ofyn a oedd y fethodoleg hon wedi ei chymhwyso yn ôl-weithredol i flynyddoedd blaenorol, ac ai barn y Swyddogion oedd bod lefelau cyffredinol allyriadau wedi gostwng.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y Pwyllgor nad oeddent wedi eu cymhwyso yn ôl-weithredol ond fod modd gwneud hyn a rhoi'r wybodaeth i'r Pwyllgor.
- Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth yr adroddir am hyn bob blwyddyn, ac na fyddai modd newid y data swyddogol.
- Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y fethodoleg yn esblygu'n gyson, gan ddweud y bydd mwy o newidiadau yn debyg o ddod.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth, ond na ddylid synied amdano fel data swyddogol.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn hyderus fod yr allyriadau yn gostwng.

Nododd y Pwyllgor fod gan Weithred y Strategaeth Pobl a Diwylliant graddfa goch, a gofynnwyd beth oedd yr heriau.

- Nododd y Penaneth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y bu hyn ar y cynllun ers y flwyddyn cynt, ac esboniodd, ers cynhadledd y staff, fod yr amserlen ddatblygu wedi ei gosod a'i bod yn cael ei ddrafftio i'w ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor y cam ar ddefnyddio dylanwad y Cyngor i annog cynllun pensiwn y staff i fuddsoddi yn foesegol, gan ddweud y byddai hyn yn gwestiwn ie neu na, a holwyd felly pam ei fod wedi ei nodi yn oren a pha heriau oedd yn gysylltiedig â hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'n gwirio hyn ac yn rhoi ateb i'r Pwyllgor.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y Cynllun Newid Hinsawdd yn cwmpasu popeth ac efallai na fydd modd rhoi pob ateb ar hyn o bryd.
- Nododd y Pwyllgor mai eu profiad personol hwy oedd y bu oedi wrth gael ymateb gan y gronfa bensiwn ac efallai mai dyna pam ei fod yn oren.
- Nododd y Cadeirydd fod cronfeydd pensiwn yn y gorffennol wedi dweud y buasent yn gwneud yn unig yr hyn oedd yn economaidd.

Nododd y Pwyllgor y byddai pob cam yn sicrhau y bydd holl adeiladau newydd y Cyngor yn sero net carbon a gofynnodd pam fod pedwar oedd yn cael eu trafod gyda Casnewydd Norse ac a oedd modd cael mwy o fanylion.

- Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth mai'r cam i ddechrau oedd cwblhau dogfen am eu gofynion, ond y bu oedi. Dywedodd y gallai'r ddogfen a'r adroddiad fynd i'r Cabinet ar gyfer briffio, ac esboniodd fod y ddogfen ar hyn o bryd ar ffurf drafft ac yn gosod allan y gofynion, yr agwedd ac isafswm safonau.
- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol nad y Cyngor yn aml fyddai'r unig gyllidwr, ac y byddai llawer o grantiau yn amodol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol fod mwyafrif yr adeiladau sy'n cael eu codi yn dilyn hyn ar hyn o bryd oherwydd bod yr agenda sero net yn symud mor sydyn.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd dim nwy yn cael ei ddefnyddio mewn adeiladau oedd yn cael eu codi o'r newydd, a bod pob adeilad yn cynhyrchu cymaint o ynni ar y safle ag sydd modd. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod gweddill yr ynni sydd ei angen yn dod gan gyflenwyr cynaliadwy.

Holodd y Cadeirydd beth oedd statws sero net y cyflenwr a holi pa mor bell i lawr y gadwyn gyflenwi yr aethant i brofi cynaliadwyedd.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth gan nad oeddent bellach yn defnyddio nwy eu bod yn edrych yn unig ar gyflenwyr trydan. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y Pwyllgor fod ganddynt baneli solar ar y safle a bod gweddill y gofyniad yn cael ei ateb gan gwmni trydan o'r Almaen sydd wedi ardystio eu bod yn cael eu holl ynni o solar a'r gwynt. Ychwanegodd, yn ddelfrydol, y bydd y rhan fwyaf yn cael ei gynhyrchu ar y safle.

Holodd y Pwyllgor am yr ail-ffitio dwfn a'r Solar PV a beth fu'r heriau.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod wedi rhoi trosolwg, gan ychwanegu fod y Swyddogion wedi bod yn feirniadol am eu bod am eu dal eu hunain i safon uwch.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai rhan o'r her oedd bod llawer o'r ôl-ffitio i adeiladau wedi eu cyllido a grantiau, a bod cyllideb y grantiau wedi ei gosod 2 neu 3 blynedd ynghynt, felly bu'n anodd aros o fewn y gyllideb yn awr.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai'r prif heriau oedd dod o hyd i arian a gwneud y mwyaf o greu ynni.

Gofynnodd y Pwyllgor am osod mwy o baneli solar ar ysgolion.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y cynhaliwyd adolygiad llawn o'r adeiladau gweithredol a'u bod yn chwilio am ffordd o gyflwyno'r paneli solar fel un pecyn. Ychwanegodd mai'r bwriad oedd cyflwyno hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac er na fu polisi ar y pwynt hwn, ei bod am gael paneli solar bob ysgol addas erbyn 2025.
- Holodd y Cadeirydd am y ffigyrau a gofyn ai dim ond am y flwyddyn cynt y'u dangoswyd.
- Dywedodd yr Aelod Cabinet mai cyfanswm y niferoedd hyd yma a ddangoswyd.

Gofynnodd y Pwyllgor am gamau i fynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon, a beth oedd y trothwy, gan ei fod wedi ei farcio'n Wyrdd.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y bydd yn rhaid cyfeirio'n ôl at berchennog y cam hwnnw am y wybodaeth.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n rhoi mwy o fanylion am hyn yn nes ymlaen, ac er nad oeddent wedi gwneud i ffwrdd â pharcio anghyfreithlon, ei fod wedi gwella dros y 5 mlynedd ers cyflwyno gorfodaeth sifil.

Gofynnodd y Pwyllgor am y cynllun llogi beiciau ledled y ddinas ac a fydd modd cael diweddariad am y cynnydd.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y cynllun llogi beiciau yn rhan o argymhellion Burns, a bod cronni wedi digwydd, ond fod cynnydd yn cael ei wneud. Dywedodd y bydd dyddiad yn cael ei roi i'r Pwyllgor, ac mai staff Cyngor Dinas Casnewydd oedd yn cyflwyno'r cynllun.

Holodd y Pwyllgor am y cynllun trafnidiaeth ymatebol i alw a gofyn a edrychwyd ar ei ymestyn i ardaloedd oedd â phroblemau rheoli ansawdd aer.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn cael eu gwasanaethu gan y prif lwybrau bysus a bod y TYG yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle nad yw'r prif lwybrau bysus yn hyfyw. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol y buasent yn edrych ar gael fflyd o gerbydau trydan i ARhAA.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad a heriau'r Cynllun Tacsis Trydan.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y bu cynllun peilot cyfyngedig gyda hyn yng Nghaerdydd, a dywedodd eu bod wedi annog hyn er mwyn gweld a fyddai modd gwneud treial pellach. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y cam hwn ar Goch ar hyn o bryd am na fu unrhyw gynnydd, ond bod disgwyl i hyn newid gan y cafwyd mwy o adnoddau i'r tîm.

Holodd y Pwyllgor faint o'r tacsis newydd fyddai'n ULEV a gofynnwyd am ganran.

- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai gwybodaeth am hyn yn cael ei roi.

Nododd y Pwyllgor y bu peth cynnydd ar Gasnewydd ddi-blastig a gofynnwyd am fwy o fanylion.

- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gwaharddiad am blastig untro wedi ei gyflwyno, ond mai cyfyngedig oedd dylanwad y Cyngor. Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor y bu cynnig i'w annog yn eu hadeiladau, ond wrth i hyn gael ei roi ar waith, fod y pandemig wedi digwydd. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth eu bod wedi gwneud cynnydd gyda ffynhonnau dŵr a photeli ailddefnydd, yn ogystal â chefnogi siopau ail-lenwi.

Nododd y Pwyllgor y cam o sicrhau bod cronfeydd pensiwn yn fwy moesegol, gan holi sut yr oeddent yn cynllunio i wneud hyn.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai hyn yn golygu ysgrifennu at y cronfeydd pensiwn a'u hysbysu o awydd y Cyngor i ddefnyddio cronfeydd mwy moesegol. Dywedodd er mai ychydig o reolaeth fyddai ganddynt, eu bod am wneud eu safbwynt yn glir.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd yn ymddangos bod ffordd i fesur hyn, gan ychwanegu y byddai'n annhebygol o gyflawni'r hyn a ddymunent.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y gellir gweld y gostyngiad trwy fonitro, a bod y pwynt wedi ei wneud yn gynharach am gydbwysedd amgylchedd a buddsoddi.
- Nododd y Cadeirydd y bu hyn yn fater ers 40 mlynedd a'i fod, efallai, yn fwy cymwys yn y fforwm wleidyddol.

Dywedodd y Pwyllgor y bu'r adroddiad yn hawdd i'w ddarllen, ond nodwyd y dylid bod wedi cael esboniad pellach am gamau a restrwyd yn goch, a thynnu sylw at bwyntiau gweithredu sydd â dyddiadau terfyn yr aethpwyd heibio iddynt.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y bu peth oedi oherwydd y cyfoesi blynyddol, a nododd y byddai diweddariad am y camau a ddaeth i ben yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.
- Dywedodd y Cadeirydd y gallai fod yn fuddiol cynnwys dyddiad ysgrifennu'r adroddiad er mwyn eglurder.

Holodd y Pwyllgor am y defnydd o derminoleg wrth ddweud eu bod yn annog defnyddio cludiant cyhoeddus a holwyd a fu unrhyw dystiolaeth i ategu ei statws gwyrdd.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y defnydd o gludiant cyhoeddus wedi cynyddu ond fod angen cael mwy o fanylion i'r Pwyllgor.
- Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad pellach o'r gair annog.
- Dywedodd yr Aelod Cabinet mai'r nod oedd cael y cyhoedd i gynyddu eu defnydd o lwybrau teithio llesol hyd yn oed os mai ond yn achlysurol y byddai hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor a fu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad fod casgliadau gwastraff gwyrdd bob 3 wythnos wedi cynyddu ailgylchu.
- Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hyn wedi ei wneud yn rhannol am resymau cyllidebol, ond dywedodd na fyddai llawer o finiau oren yn llawn pan gesglid hwy. Dywedodd wrth y Pwyllgor y gallai trigolion wneud cais am ail fin oren pe dymunent.

Nododd y Pwyllgor fod cyfeiriad at annog teithio llesol a chludiant cyhoeddus, a gofynnwyd sut yr oeddent yn annog hyn i bobl ag anawsterau symud yn ogystal â'r henoed.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y bu arian i gael arosfannau bysus newydd a bod hyn wedi dechrau cael ei gyflwyno, gan obeithio y bydd y rhaglen wedi ei chyflawni dros y 3 i 4 blynedd nesaf.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd rhestr gyflawno'r gwelliannau fyddai'n dod i bob ardal.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y flaenoriaeth wedi ei weithio allan ar sail defnydd a'r rhai yn y cyflwr gwaethaf, a dywedodd y byddai'n gofyn am i'r rhestr hon gael ei rhannu.

Gofynnodd y Pwyllgor a fu unrhyw ymchwil i weld a oedd ychwanegu arosfan bws newydd wedi cynyddu'r defnydd.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n holi, ond yn aml, lle nad oes arosfan bws fod hyn oherwydd problemau peirianyddol y fan a'r lle, a hefyd fod cyfyngiadau ar gyllid. Dywedodd fod llawer o'r arosfannau bysus mewn cyflwr gwael, felly bod angen eu codi i'r safon angenrheidiol.

Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn cynnig bin compostio cartref.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol yr arferai'r Cyngor wneud hyn, a'u bod am gyfnod wedi cynnig rhai am bris is; mae hyn yn rhywbeth y gellir ymchwilio iddo.
- Nododd y Pwyllgor petai mwy o bobl yn defnyddio biniau compostio cartref, y byddai'n lleihau swm y gwastraff a gymerai'r cerbydau.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cynllun beicio i'r gwaith wedi ei gyflwyno ac a gallai gweithlu'r Cyngor ei ddefnyddio.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'n rhaid cadarnhau hyn.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y cynllun wedi bod yn agored dros ddau gyfnod mewn blwyddyn a dywedodd hefyd ei fod wedi ei ymestyn am flwyddyn bellach.
- Holodd y Cadeirydd ai cyfeirio yr oeddent at y cynllun aberthu cyflog.
- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y bu'r cynllun ar agor i Aelodau am ei fod i fynd i'r Pwyllgor Craffu. Nododd oherwydd natur y cynllun mai ond ar rai adegau y byddai ar agor, ac mai'r un cynllun ydoedd dan enw gwahanol.
- Nododd y Rheolwr Gwasanaeth fod cyfres o fuddion staff oedd yn cynnwys y cynllun aberthu cyflog a sylwodd mai cynllun prydlesu oedd hwn a fu ar waith ers 7 mlynedd.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd modd mesur pa mor aml y defnyddid y beiciau i fynd i'r gwaith a nododd y byddai'n werth cael metrig i fesur hyn.

- Hysbysodd yr Aelod Cabinet y Pwyllgor y bu sylwadau am hyn ar rwydwaith y staff.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y gallant drafod ffordd o fesur hyn, ond hyd yn oed petaent yn cael eu defnyddio y tu allan i'r gwaith, ei fod yn dal yn llesol.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y bu bwriad i gynnal arolwg.

**Casgliadau:**
Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am eu gwaith caled.

- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am y cynnydd yn ffigyrau'r sawl oedd yn gweithio o gartref a'r ffigyrau cymudo, gan eu bod fel petaent yn gwrth-ddweud ei gilydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gynnal ymarferiad lle bydd y newidiadau i fesur allyriadau cyflenwyr yn cael eu cymhwyso at ddata blynyddoedd blaenorol er mwyn deall tueddiadau a newidiadau yn well.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am drothwyau camau Gwyrdd, yn enwedig o ran parcio anghyfreithlon.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddyddiad cyflwyno cynllun beiciau ledled y ddinas.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ganran y gyrwyr tacsi gyda thrwyddedau am geir ULEV newydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o esboniad am y gwelliant mewn cludiant cyhoeddus a pham fod y cam wedi ei nodi fel un gwyrdd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ymateb am sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod gwaith yn cael ei wneud i annog cronfa bensiwn y staff i fuddsoddi'n foesegol.

- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys data am effaith casgliadau gwastraff gardd bob 3 wythnos ar ailgylchu gwastraff yn yr adroddiad nesaf.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhannu rhestrau o welliannau i arosfannau bysus yn ehangach gydag Aelodau a rhannu rhaglen waith y gwelliannau hyn gydag Aelodau Ward fel bod modd rhoi gwybod i drigolion.
- Argymhellodd y Pwyllgor gynnal arolwg i ganfod pa ym mha ardaloedd y byddai gwelliannu i arosfannau bysus yn cynyddu'r defnydd o fysus.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid monitro i weld pa mor aml y mae'r sawl sydd yn y Cynllun Beicio i'r Gwaith yn defnyddio eu beiciau i deithio i'r gwaith.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys mwy o wybodaeth am bensiynau yn y Cynllun Gweithredu Arweinyddiaeth Sefydliadol a Diwylliant dan Flaenoriaeth 4, Gweithred V yn yr adroddiad.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu colofn sylwadau/esboniadol at y graddfeydd Coch, Oren a Gwyrdd yn yr adroddiad.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys mwy o wybodaeth am drothwyau graddio yn yr adroddiad.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys dyddiad ysgrifennu'r adroddiad er mwyn eglurder wrth ystyried dyddiadau yn yr adroddiad – sef dyddiadau sydd wedi mynd heibio'r rhai a nodwyd erbyn y cyfarfod ond a all fod wedi eu cyrraedd erbyn i'r adroddiad gael ei olygu.

5 **Adroddiad Blynyddol Cynllun Newid Hinsawdd 22-23**

**Gwahoddwyd:**
**Y Cynghorydd Dimitri Batrouni – Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol**
**Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol**
**Tracy McKim – Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid**
**Mark Bleazard - Rheolwr Gwasanaethau Digidol**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth yr adroddiad gan nodi nad oedd yn un statudol. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol drosolwg bras o'r adroddiad a thynnu sylw at rai pwyntiau allweddol.

**Cwestiynau:**

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Swyddogion am gynnwys manylion am fersiwn ac awdur yr adroddiad ond holodd pam mai ond ym mis Ebrill y dechreuodd hyn ac a fu unrhyw fersiynau blaenorol.

- Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol mai adroddiad am flwyddyn ydynt, a'u bod yn dechrau ysgrifennu'r adroddiad ym mis Ebrill ond y byddai'r tîm yn cofnodi data trwy gydol y flwyddyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r data gael ei gyflwyno fel canrannau yn ogystal â ffigyrau er mwyn rhoi cyd-destun.

Holodd y Pwyllgor pam na fu'r Cyngor yn cydymffurfio â'r PSN am gyfnod o flwyddyn ac a oedd risgiau yn gysylltiedig â hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol na chydymffurfiodd y Cyngor yn ffurfiol oherwydd i'r gwiriad iechyd fod yn hwyr. Bu'r Cyngor wrthi yn rhoi system ariannol newydd yn ei lle, ac yr oedd hyn wedi creu heriau arbennig, ond nododd, er y bu risg weddol fychan, y cafodd hyn ei liniaru. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y gwiriad am eleni eisoes yn ei le.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod darparwr allanol yn gwneud y gwiriad iechyd, ac yn nodi pwyntiau bregus. Pan wnaed cais am gydymffurfio, ni chafodd ei dderbyn oherwydd y pwyntiau bregus a restrwyd.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddogion ddweud peth oedd y pwyntiau bregus.

- Rhestrodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol rai o'r pwyntiau bregus anodi fod y rhestr yn ymddangos yn fawr am i'r pwyntiau bregus gael eu rhestru'n unigol.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y cafwyd anhawster i symud rhai o'r pwyntiau bregus oherwydd bod systemau gwybodaeth arnynt.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol er bod llawer ar y rhestr, eu bod oll yn ymwneud ag un system.

Gofynnodd y Cadeirydd pa systemau oedd yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol eraill, a phwy oedd yn arwain ar hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y byddai llawer o'r awdurdodau lleol yn rhannu seilwaith craidd cyffredin wedi ei yrru gan wytnwch yn ogystal ag arbedion cost, ond y byddai fersiynau unigol o hyd  i osgoi pryderon am ddata. Ychwanegodd, tra'u bod yn cydweithio gyda'r CWA, eu bod wedi gwneud yn siŵr fod gan y Cyngor amryw o systemau gwahanol gan gynnwys y system gyflogres.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod llawer o awdurdodau wedi symud i'r Cwmwl ond fod ganddynt eu system eu hunain na fyddai'n cael ei rhannu.

Gofynnodd y Pwyllgor pa mor aml y gofynnir i drydydd parti gynnal prawf.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod hyn yn digwydd yn flynyddol.
- Holodd y Pwyllgor a oedd hyn yn ddigon aml o ystyried mor gyflym y mae technoleg yn newid.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y prawf blynyddol yn broses ffurfiol, ond ychwanegodd fod y CWA yn cynnal sawl prawf yn amlach, gan esbonio fod y system hefyd yn cael ei monitro bob amser rhag ofn y bydd ymosodiad maleisus.

Gofynnodd y Pwyllgor sawl 'ymosodiad maleisus' a fu.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol na fu rhai, ond y byddai'n anodd mesur hyn.

Holodd y Pwyllgor a gafwyd ymosodiad difrifol erioed.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y bu ymosodiad pridwerthwedd 7 mlynedd yn ôl a chyn i'r CWA fodoli, ond na fu fawr ddim canlyniadau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod atebion penodol wedi eu rhoi ar waith oherwydd yr ymosodiad hwn a bod llawer o welliannau wedi eu gwneud y systemau wrth gefn y Cyngor. Nododd hefyd eu bod wedi gwella dynwarediadau meta-gydymffurfio ond gan ddweud hefyd eu bod am addysgu'r sawl fyddai'n clicio ar unrhyw ddolen.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y digwyddiad wedi ei ganfod yn sydyn ac mai'r brif effaith fu cau'r system i lawr yn hytrach na thorri ar ddata. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi cymryd rhan mewn ymarferiad cenedlaethol o ddynwared ymosodiadau a'u bod hefyd wedi cadw golwg ar yr ymateb dynol i'r problemau hyn.

Holodd y Pwyllgor a oedd y Swyddogion yn hyderus y byddai'r Cyngor yn iawn pe digwyddai ymosodiad arall.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol eu bod, ond nad oedd hyn yn golygu eu bod yn gorffwys ar eu rhwyfau, ac esboniodd y bu llawer o fuddsoddi yn y maes hwnnw.
- Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor, pan fu digwyddiadau cenedlaethol, fod camau rheoli pellach yn cael eu rhoi dros y cyfnod hwnnw.

Holodd y Pwyllgor a oedd posibilrwydd o gau defnyddwyr allan o'u cyfrifon nes iddynt gwblhau eu cwrs Meta-gydymffurfio.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod cwrs y mae'n rhaid i bob dechreuwyr newydd gymryd cyn cael mynediad, gan ychwanegu eu bod yn annog cyfranogi yn hytrach na gwahardd mynediad, ond dywedodd y byddai hyn yn  bosibilrwydd petai angen.
- Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cydymffurfio yn fater mawr fyddai'n dal i gael ei drafod, a bod gwella yn broses o ddysgu. Dywedodd er nad oedd modd rhoi sicrwydd 100%, y byddant yn gyfoes ar gydymffurfio.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr adran ar ddata cyhoeddi, gan nodi nad oedd rhai o'r dogfennau ar y wefan yn gyfoes.

- Ymddiheurodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol a dweud fod hyn yn cael ei wneud trwy broses a ddylai fod yn flynyddol neu yn chwarterol.

Holodd y Pwyllgor am y diffiniad o Gais Mynediad Gwrthrych cymhleth a gofynnodd a oedd cynlluniau ar y gweill i gael tabl ychwanegol am CMG cymhleth a beth fyddai canlyniadau peidio â chydymffurfio.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y diffiniad o CMG cymhleth yn cael ei roi gan Swyddfa'r Comisiynydd ac nad oedd bwriad i'w cofnodi ar wahân, ond yn hytrach gael terfyn amser hwy. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod modd cofnodi nifer y CMG cymhleth.

Gofynnodd y Pwyllgor am adrodd am nifer y CMG cymhleth wrth y Pwyllgor, gan holi a fyddai llawer.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y byddai'n rhaid gwirio'r cais gan nad oed dy nifer yn cael ei gofnodi yn awtomatig. Ni fyddai llawer, ond mae'r rhan fwyaf yn dod o Ofal Cymdeithasol.

Gofynnodd y Pwyllgor pa risgiau oedd yn gysylltiedig â pheidio â chyrraedd y targed a osodwyd.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y gallai Swyddfa'r Comisiynydd orfodi'r Cyngor i weithredu, ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor wedyn glirio'r nifer cymharol fychan oedd wedi cronni.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai risg i enw da, gan ychwanegu fod ymddiriedaeth y cyhoedd yn bwysig iawn. Ychwanegodd nad oedd y Cyngor  wedi cymhwyso'r eithriad hyd yma, sy'n golygu bod y targed wedi ei ostwng yn artiffisial.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y Pwyllgor fod Swyddfa'r Comisiynydd yn cyhoeddi'r adegau pan fyddant wedi gweithredu a dywedodd fod sefyllfa'r Cyngor yn wahanol i'r rhain. Problemau am ddarpariaeth gofal cymdeithasol oedd rhai'r Cyngor, lle mae gofyn cadw cofnodion am 99 o flynyddoedd ac ar amrywiaeth o fformatau.
- Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol mai her arall oedd sicrhau cyfrinachedd 3ydd partïon.

Holodd y Pwyllgor lle cadwyd y cofnodion.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y rhan fwyaf o gofnodion yn cael eu cadw yn electronig a bod y cofnodion hŷn wedi eu cadw mewn amrywiol fannau, a bod hyn wedi peri heriau logistaidd.

Holodd y Pwyllgor â beth yr ymdriniodd y Cyfrif Stoc Seibr a gofynnwyd a oedd y canlyniadau ar gael.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol mai hunanasesiad oedd hyn a wnaed ledled Cymru, a'i fod wedi ei wneud ar y cyd â'r CWA am eu bod hwy yn ymwneud â'r camau rheoli technegol. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y Pwyllgor fod Grŵp Diogelwch Seibr WARP yn gweithredu ledled Cymru ac y buasent yn dysgu gwersi gan bartneriaid eraill ac awdurdodau lleol. Aethpwyd ar ôl y canlyniadau, a byddai'n dibynnu ar amseriad ym mha adroddiad y byddent yn cael eu cynnwys, ond dywedodd wrth y Pwyllgor eu bod wedi gwneud yn dda dros y blynyddoedd diwethaf.

Gofynnodd y Pwyllgor am amserlen Adroddiad Terfynol Archwilio Cymru.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol nad oedd yn gwybod pryd y deuai yn ôl ond y bydd yn debyg o fod yn fuan, ac ychwanegodd eu bod wedi rhoi mwy o wybodaeth fis yn ôl, a'u bod yn disgwyl y byddai'r adroddiad yn ystyried hyn.
- Nododd y Pennaeth Gwasanaeth mai rhan 2 fyddai'r adroddiad, ond y gallent roi crynodeb.

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r adroddiad mwyaf cyfoes gael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

- Nododd y Pennaeth Gwasanaeth, gan nad oedd yr adroddiad wedi ei wneud gan bob awdurdod lleol am nad oedd yn adroddiad statudol, na fyddai amserlen Archwilio Cymru yn cyd-fynd.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol mai adroddiad generig fyddai hwn ac ychwanegodd y gallai'r wybodaeth eu gadael yn agored petai'n cael ei rannu, ond y gellid rhoi elfennau ohono.

Nododd y Pwyllgor efallai na fydd hyfforddiant ar-lein yn ddigon, a chanmolwyd y defnydd o ddynwared 'phishing' a holodd faint o unigolion a dwyllwyd ganddynt.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol ei bod yn bwysig peidio â bod yn rhy eithafol, ond dywedodd hefyd y byddai hyd yn oed un yn ormod. Dywedodd mai'r nod oedd addysgu yn hytrach na chosbi, a nododd eu bod wedi gwneud sawl gwahanol fath oedd fymryn yn wahanol, ac y byddai'n anodd eu cymharu.
- Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth fod 9.2% o ddefnyddwyr wedi clicio ar y ddolen ond fod 4% wedyn wedi rhoi data i mewn a bod gofyn i'r 4% wedyn gael hyfforddiant.

Cwestiynodd y Pwyllgor y ddibyniaeth ar ddata digidol a holi beth fyddai'n digwydd petai methiant llwyr yn digwydd yn y Ganolfan Ddinesig.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod systemau wrth gefn nad oes modd eu llygru a bod gwahanol gopïau sy'n cael eu cadw am wahanol hyd o amser.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyn yn dod dan Fesurau Sifil Wrth Gefn a bod cynllun adfer wedi trychineb ar gael.

Mynegodd y Pwyllgor bryder am e-bost nas golygwyd oedd wedi ei anfon, a holodd a fu hyfforddiant yn dilyn hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod pob digwyddiad a'r camau angenrheidiol yn cael eu trin ar lefel unigol, ac ychwanegodd fod Cyngor Casnewydd wedi adrodd am ychydig iawn o ddigwyddiadau.
- Yr oedd yr Aelod Cabinet am ddiolch i'r Pwyllgor am eu cwestiynau a'u mewnwelediad.

**Casgliadau:**
Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

- Yr oedd y Pwyllgor yn croesawu cynnig y  Swyddog o ddarparu erthyglau gyda mwy o wybodaeth am achosion o weithredu gan SCG.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddosbarthu crynodeb o adroddiad Archwilio Cymru. Os nad yw un cyfredol eleni, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon i dderbyn gwybodaeth o'r flwyddyn flaenorol i wella eu dealltwriaeth o ddiben yr adroddiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am Gyfrif Stoc Seibr ac am esiamplau. Os  nad yw un cyfredol eleni, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon i dderbyn gwybodaeth o'r flwyddyn flaenorol i wella eu dealltwriaeth o'r adroddiad.

-

- Argymhellodd y Pwyllgor gael data cyd-destun gyda chanrannau.
- Argymhellodd y Pwyllgor gynnwys niferoedd CMG "arbennig o gymhleth" mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael ymatebion cryfach i hyfforddiant anghyflawn.

Teimlai'r Pwyllgor fod cryn orgyffwrdd rhwng yr Adroddiad Risg Gwybodaeth a'r Adroddiad Digidol Blynyddol a gofynnodd i'r Swyddogion ystyried uno'r adroddiadau.

## 6 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r rhain gael eu cofnodi ar derfyn pob eitem berthnasol ar yr agenda.

## 7 Adroddiad Cynghorydd Craffu

**a) Camau yn Codi (Atodiad 1)**
Adroddodd yr Ymgynghorydd Craffu am y camau heb weithredu arnynt i'r Pwyllgor.
Adroddodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod tua 250 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yng Nghasnewydd.
Nododd yr Ymgynghorydd Craffu y byddai'r Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol yn cysylltu â'r Brifysgol ar ran y Pwyllgor.
**b) Blaen-Raglen Waith (Atodiad 2)**
Nododd yr Ymgynghorydd Craffu fod un eitem ar yr agenda am 8 Medi a bod dwy eitem ar agenda cyfarfod 9 Hydref ac ychwanegodd y bydd cyfarfod yr Hydref yn dechrau am 2pm.
Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel **8 Medi 2023.**

## 8 Digwyddiad Byw

'Mae modd gwylio recordiad o'r cyfarfod yma.  <https://www.youtube.com/watch?v=cxbY3rzhMgw>

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified